ATODLEN 7

Deunydd risg penodedig, cig a wahenir yn fecanyddol a thechnegau cigydda

**Diogelwch deunydd risg penodedig**

**17.**—(1) Hyd nes traddodir neu y gwaredir y deunydd o'r fangre lle y'i tynnwyd, rhaid i feddiannydd y fangre sicrhau bod deunydd risg penodedig yn cael ei wahanu'n ddigonol oddi wrth unrhyw fwyd, bwydydd anifeiliaid neu gynnyrch cosmetig, fferyllol neu feddygol, a'i gadw mewn cynhwysydd anhydraidd sydd â chaead a label arno i ddynodi ei fod yn cynnwys naill ai—

(a) deunydd risg penodedig; neu

(b) sgil-gynhyrchion anifeiliaid Categori 1 ac yn dwyn y geiriau “For disposal only” ar y label.

(2) Rhaid i'r meddiannydd sicrhau bod y cynhwysydd yn cael ei olchi'n lân cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol bob tro ar ôl ei wagio, a'i ddiheintio cyn ei ddefnyddio at unrhyw ddiben arall.

(3) Mae peidio â chydymffurfio â'r paragraff hwn yn dramgwydd.